# Hanes Tabernacl Trimsaran 1872-1979. (Cymraig)




Mae Sir Gaerfyrddin wedi chwarae rhan bwysig ynglŷn â Methodistiaeth o'r dechrau. Mae dylanwadau'r sir hon i'w gweld ar sefydliadau, athrawon, emynau, a llenyddiaeth y Gyfundeb hyd heddiw, yn enwedig yn y Deheu. Cofiwch am y cewri fel William Williams, Pantycelyn, Peter Williams, Thomas a David Charles, Caerfyrddin, John Evans, Llwynffortun ac amryw o'r rhai eraill. Gellir adleisio geiriau'r proffwyd am y sir hon: 'Nid y lleiaf wyt ymhlith siroedd Cymru, canys ohonot y daeth tywysogion i fugeilio pobl yr Arglwydd'. Mae'n rhaid i ni ddychwelyd yn ôl i'r flwyddyn 1872 i gael hanes cyntaf yr Achos Fethodistaidd yn Nhrimsaran. Yn y flwyddyn hon, penderfynwyd mewn Cyfarfod Misol yn Horeb, Mynydd-y-Garreg, bod y Parchn. David Lewis, Llanstephan a D.Geler Owen, Cydweli i fynd i Drimsaran i ystyried y priodoldeb o gychwyn Achos Fethodistaidd yn y 11eg ganrif hon, oherwydd fod llawer o bobl Sir Aberteifi wedi symud i fyw i'r lle. Barnwyd yn ddoeth i symud ymlaen ar unwaith. Yn y dechrau, bu pregethu yn y Trilwm, cartref John a Sarah Phillips, ac hefyd yn y Plâs, cartref David a Catherine Williams. Ond cyn hir cafwyd fenthyg 'shed' gan gwmni gwaith Trimsaran ar gyfer pregethu ar y Sabath. Roedd y 'shed'wrth gefn y 'Post Office'. Cafwyd oedfeuon rhagorol yn yr hen 'shed', a bu pregethu mawr yno gan y Parchn. T. Jones, M.A., Llanelli a D.Lloyd Jones, M.A., Llandinam a llawer o enwogion eraill. Ychydig ar ôl hyn, yn 1873, cafwyd tir gan gwmni gwaith Trimsaran am brydles o 99 o flynyddoedd, er mwyn adeiladu Capel Methodistiaid. Ymgymerodd y Cyfarfod Misol â holl gyfrifoldeb y ddyled oherwydd roedd gweithredu yn anodd, yr oedd yn yr oes honno fel yn awr prinder arian.

Mae hanes yn y 'Guardian' am Eisteddfod Fawreddog yng Nghastell Cydweli. Y beirniad cerdd oedd Mynyddog, Ysgrifennydd oedd Mr. Morgans, Fferm y Garreg, a'r

Trysorydd oedd Mr. D.L. Anthony, Penlan. Rhoddwyd dros £30 gan bwyllgor yr eisteddfod tuag at 'building fund' y Capel newydd yn Nhrimsaran. Gwelwyd yn y 'Guardian' ar Ebrill 30ain, 1874 rybudd am 'Tenders' i adeiladu capel yn Nhrimsaran. Bu'r Rhybudd allan am 6 wythnos. Dyma fe: "Wedi anfon Tendr am adeiladu capel yn Nhrimsaran, gallwch weld y cynlluniau a'r manylebau gyda'r Parch. D.G. Owen, Cydweli. Anfonwch Tendroedd i T.Morgans, Horeb, Llanelli!"Fe ddywedir fod Trimsaran wedi cynyddu lawer oddi ar agoriad y Gwaith Glo a'r Gwaith Haearn, oherwydd hynny mae y Methodistiaid Calfinaidd wedi dechrau Achos yn y lle ers rhyw ddeunaw mis cyn hynny. O ganlyniad rhoddwyd te i blant ysgol Sabothol yr Achos gan Mr. Combe, rheolwr y gwaith glo, ar lawnt o flaen ei dy ac fe weinyddwyd mewn ffordd neilltuol gan Miss Combe a bonheddigesau eraill o Gydweli. Ar ôl i tua gant o blant gael te, fe diolchwyd i Mr. a Miss Combe gan y Parch. D.G.Owen, Cydweli ar ran y plant. Fe atebodd Mr. Combe ei fod yn foddhad mawr iddo weld y plant yn mwynhau eu hunain ac er mai dyma'r tro cyntaf iddo ef eu cyfarfod yr oedd yn gobeithio mai nid dyma'r tro diwethaf. Fe gafwyd amser da gan y plant ac fe ddosbarthwyd llyfrau iddynt gan Mr. D. Nicholas, Cydweli. Nid yw yn eglur pryd gosodwyd y garreg sylfaen ond mae'n debyg mai ar Orffennaf 28ain, 1874 y gosodwyd hi gan Mrs.P. Daniels, Llandyry House, gwraig Mr. Daniels, rheolwr y gwaith glo. Llywyddwyd gan Mr. T. Morgan, Horeb, ac fe ddechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. D.G. Owen, Cydweli, trwy rhoddi allan yr emyn cyfarwydd 'Gosod Babell yng ngwlad Gosen'. Ar ôl hyn fe ddarllenwyd a rhoddwyd y weddi o gysegriad gan y Parch. T.James, Llanelli. Cafwyd anerchiad Saesneg gan y Parch.

Joseph Evans, Caerfyrddin cyn galw ar Mrs. P.Daniels i osod y garreg sylfaen. Rhoddwyd anerchiad byr gan Mr. Daniels ar ran ei wraig, yn dweud ei fod yn falch i weld dau gapel ac ysgol yn cael eu hadeiladu gerllaw y gweithiau, ac yr oedd yn gobeithio y byddai y pentref yn well yn foesol ac yn ysbrydol oherwydd hynny. Diolchwyd am yr anrhydedd a rhoddwyd i'w wraig. Fe anerchwyd hefyd gan y Parchn. O. Edwards, B.A., Llanelli, J. Davies, Llanelli, J. Griffiths, Ferryside, D.G.Owen, Cydweli, W.D. Williams, Penclawdd a Mr. Stephens, Brynamman.

Ar ôl Cyfarfod cafwyd pryd o fwyd blasus iawn yn Llandyry House gan Mrs. Daniels. Y cymerwr neu y 'contractor' cyntaf oedd Mr. Richard Morgan, Cydweli, ond digwyddodd damwain. Torrodd y 'scaffold' ac anafwyd y pump dyn oedd ar y 'scaffold', dau yn ddrwg iawn, sef, Mr. Morgans y contractor yn torri coes, a dyn ifanc yn torri braich. Digwyddodd hyn ar y 6ed o Ebrill, 1875, a gohiriwyd y gwaith am gyfnod. Ymgymerodd y Parch. John Griffiths, Ferryside, at y Capel. Y pensaer oedd Mr. G. Morgan, Caerfyrddin. Er mwyn casglu arian tuag at dreuliau adeiladu'r Capel, fe gynhaliwyd llawer cyngerdd ac Eisteddfod yn yr ardal. Ar Hydref 16eg, 1874, cynhaliwyd cyngerdd yn Morfa, Cydweli, at 'building fund' Y Tabernacl, Trimsaran. Cadeirydd oedd Mr. J. Dudley Thomas. Cymerwyd rhan gan 'Eos Morlais', Miss M.A.

Lewis, Harriet Jones, Mrs, D.C. Davies, Caerfyrddin a Glee Parti, Cydweli, arweinydd Mr. J. Anthony.

Ar Hydref 20fed, fe gynhaliwyd cyngerdd yn Tabernac1, Capel y Bedyddwyr, Porth Tywyn, eto ar ran y 'building fund' Tabernacl, Trimsaran. Y Cadeirydd oedd Mr. J.K.Hand, cymerwyd rhan gan 'Eos Morlais', Miss Morgans a Mrs. Williams, Mr. D. Thomas, Miss Randel1, a 'Glee Parti', Capel Newydd. Cafwyd y cyngerdd hyn trwy weithgarwch Mr. T. Morgans, Horeb. Ar Mawrth 7fed, 1876, cynhaliwyd Eisteddfod yn Nhrimsaran. Y Caderydd oedd Mr. L. Williams, rheolwr y gwaith glo, arweinydd Mr. D.T. Morris, Ferryside, beirniaid llenyddiaeth Mr. D. Richards a Mr. T. Williams, beirniad cerdd, Mr.W.T. Ress. Cafwyd cyngerdd ar ôl yr Eisteddfod, a chyngerdd hefyd, a'r canlyniad oedd £15 i'r 'building fund'. Ar Fawrth 26ain a 27ain, 1876, hysbyswyd yn y 'Guardian' yr hysbysiad canlynol: "Haddysgaf amgap aruthrol ac eglwys fechan gymedrol o'r enw Tabernacle, a adeiladwyd am gost o £1,100 i gwrdd â gofynion y Methodistiaid Calfinaidd, agorwyd yn Nhrimsaran ddydd Sul a Llun, 26ain a 27ain o Fawrth 1876."Bore dydd Sul cafwyd cyfarfod gweddi i ddechrau, ac am 10 o'r gloch pregethwyd gan y Parchn. D.G. Owen, Cydweli a John Griffiths, Glanfferi. Yn y prynhawn pregethwyd gan y Parch.T.James, M.A., Llanelli, a Parch. T. James, Hendre, ac yn yr hwyr gan y Parch. D.G. Owen, Cydweli, a'r Parch. T. James, Llanelli.Dydd Llun, yn y bore, pregethwyd gan y Parch. John Evans,Llanelli, a'r Parch. E. Edmunds, Abertawe. Yn y prynhawn pregethwyd gan y Parch. D.C. Lewis, Llandyfaelog, a'r Parch. J.Lewis, Caerfyrddin a bregethodd yn Saesneg. Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch. J. Lewis, Caerfyrddin a'r Parch. E.Edmunds, Abertawe. Agorwyd gwasanaeth y prynhawn gan y Parch.W.C. Jenkins, Capel Sul, Cydweli, ac yn yr hwyr gan y Parch. H.Curry, Cydweli. Yr oedd cymaint â £100 wedi eu gasglu erbyn yr agoriad.

Ar Awst 12fed, 1876 cafwyd 'De Parti' i blant yr Ysgol Sul ar y cae sydd nesaf at y Capel. (Cae lle'r oedd yr Institute) ac fe ddaeth yn agos i gant i'r parti. Ar ôl y te cafwyd ganeuon gan y côr o dan arweiniad Mr. Phill. Phillips, Trilwm. Hefyd cafwyd caneuon gan parti Mr. Tom Phillips, yn canu triawdau ac anthemau. Ar ôl y canu yr oedd mabolgampau i'r plant yn parhau hyd wyth o'r gloch a phawb yn mwynhau eu hunain ac yna dosbarthwyd y losin.

J. Griffiths, Glanfferi, Mr. L. Williams, rheolwr y gwaith a Mr. Phill. Phillips. Yn y flwyddyn 1877 cafwyd cyfarfodydd blynyddo1 y Capel ar y dydd Sul a dydd Llun Rhagfyr 16eg a 17eg pregethwyd gan y Parchn. W.D. Williams, Penclawdd, Mr. D. Jones, Casllwchwr, J.Lewis, Caerfyrddin a E. Jones, Llanpumsaint, gweinidog prawf yr Eglwys. Casglwyd ym mhob oedfa ar gyfer y 'building fund'. Gweinidog cyntaf yr Eglwys oedd y Parch. Edward Jones, a bu yn byw yn fferm y Clun. Dim ond am gyfnod byr a bu yn Fugeil. Bu yr Achos i fyny ac i lawr am amser ac yna ymgymerodd y Parch. D. Geler Owen, Cydweli, at Fugeiliaeth y Tabernacl. Blaenoriaid yr Eglwys o'r

cychwyn oedd y Mri. David Williams, John Phillips, Charles Lloyd, John Jenkins, John Morris, Thomas Beynon, Thomas Jenkins, David Lloyd, David Jones Williams, a John Morgan. Llewyrchu wnaeth yr Eglwys o dan fugeiliaeth y Parch. Geler Owen. Yn y flwyddyn 1907, cafwyd organ i'r Capel gwerth £50. Yna yn y flwyddyn 1908 adeiladwyd festri hardd a chyfleus, gwerth £350. Yr adeiladwyr oedd Mr. David Williams a Mr. David Tom Williams. Agorwyd y festri ar Sul y Pasg Ebrill 19fed, 1908, pryd y pregethwyd gan y Parch. W.W. Lewis, Caerfyrddin, a Mr. Jones, Coleg Trefeca.

Erbyn hyn yr oedd rhan fwyaf o'r ddyled wedi ei thalu. Ond erbyn hyn y mae y gost a'r drafferth wedi eu coroni â llwyddiant. Dyma adroddiad yr Eglwys am 1908.

Rhif yr aelodau cyflawn 101

Rhif y grandawyr gan gynnwys yr aelodau a'r plant 200

Cyfanrif yr Ysgol Sul 120

Casgliad at y Weinidogaeth £40-3s-11d

At y Genhadaeth Dramor 10s

At y Genhadaeth Gartrefol 10s

At bob achos £496-8s-2d

Yn denau yw'r hanes o 1908 hyd 1919 oherwydd ni cheir cofnodion am y cyfnod hyn. Bu rhaid i'r Parch. Geler Owen o'r gwaith fel Bugail oherwydd afiechyd, ac yna ar y laf o Hydref, 1919, ymgymerodd y Parch. Richard Lloyd â'r Fugeiliaeth. Cynhaliwyd Cyfarfod Sefydlu y gweinidog prynhawn a hwyr ddydd Mawrth Tachwedd 25ain, 1919. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Thomas Jones, Rhostyllen, D.Geler Owen, E.J. Herbert, D.E. Jones, B.A., J.Owen Jones, H.Pryse Jones, Mr. Jones, Rheoboth, Mr. Williams, Carway, a Mr. Jones, Cydweli, ag eraill. Cyfnodwr yr Eglwys yr amser oedd y Parch.

Richard Lloyd ei hun ac enwau y blaenoriaid oedd:

- Mr. David Williams, New Houses.
- Mr. David Tom Williams, Gwynfryn.
- Mr. Thomas Jenkins, Pleasant View.
- Mr. Thomas Beynon, Fferm y Clun.
- Mr. John Phillips, Man yr Afon.
- Mr. Thomas Morris, London House.

Mae Mr. Lloyd wedi cofnodi y plant a fedyddiwyd, y rhai a dderbyniwyd i gymundeb, y priodasau a rhai a gladdwyd yn y fynwent, ond nid yw yn bosibl i mi i sôn am y rhain i gyd, felly rhaid oedd cwtogi ar y cofnodion, a nodi yn unig y ffeithiau pwysicaf.

Ar Rhagfyr 25ain, 1919, fe welir fod côr o enethod dan arweiniad Mr. Thomas Jenkins wedi rhoddi datganiad o'r cantata 'Hosanna'r plant' ac ail adroddiad yn Ionawr 1920, ac felly bu yr arferiad am flynyddoedd. Dyma rhestr o rhai o'r cantawdau: 'Bugeiliaid Bethlehem, Rejoice in the Lord, Twelfth Mass, The City of God'. Yn 1924 gwelir fod newid yn yr arferiad o cantawd bob Nadolig a bod Parti Meibion Mr. T.J. Jenkins wedi rhoi cyngerdd. Llywyddwyd gan Dr. Harvey a'r Parch. G. Lewis, B.A. Yn 1929 gwelir arweinydd arall yn cymryd at y gyngerdd Nadolig sef, Mr. Haydn Thomas A.T.C.L. pryd y perfformiwyd y gantawd 'Ymgom yr Adar'y cyfeilydd oedd Mr. T.J. Jenkins.

Yn Medi 26ain, 1920, dewisiwyd blaenoriaid newydd. Eu henwau oedd Mri. Archie Griffiths, David Jenkins, William Lodwick, Benjamin Lloyd, Thomas Gomer Lloyd a David Thomas. Gwrthododd un o'r rhain i fod yn flaenor sef, Mr, Benjamin Lloyd. Dyma'r rhestr swyddogion yr Eglwys Ionawr 1af, 1921.

Blaenoriaid:

- Mr. Thomas Beynon,
- Mr. John Phillips, Ysgrifennydd y Seddau,
- Mr. David Tom Williams, Ysgrifennydd yr Eglwys,
- Mr. Thomas Jenkins, Arweinydd y Gan,
- Mr. Thomas Morris, Trysorydd,
- Mr. David Thomas, Arolygydd trefn y Gwasanaeth,
- Mr. William Lodwick, Ysgrifennydd Casgliadau Cyfundebol,
- Mr. David Jenkins, Gofalwr am y Sacramentau,
- Mr. Thomas Gomer Lloyd, Gofalwr am Amlenni y Weinidogaeth,
- Mr. Archie Griffiths, Arolygydd y Fynwent.

Swyddogion eraill yr Eglwys oedd:

- Mr. John Lloyd, Seddau,
- Mr. Haydn Thomas, Organydd.

Swyddogion yr Ysgol Sul:

- Arolygwr Mr. Thomas Williams,
- Ysgrifennydd Mr. Sidney Lewis Williams,
- Trysorydd Mr. Sidney Griffiths.

Un o'r cofnodion nesaf oedd y digwyddiad ar Ebrill 26ain, 1923. Ar y dyddiad hwn fe ddigwyddoedd damwain ddifrifol yng Nghlofa Trimsaran. Pan oedd y dynion yn dychwel i'r wyneb o'u gwaith, torrodd y shackles a rhedodd y 'spake' i lawer y gwaered gan gludo y dynion gyda hi ac mewn ychydig eiliadau collwyd deg bywyd ac anafwyd hanner cant. O Eglwys y Tabernacl collwyd Mr. William Jenkins, 'Derlwyn', yn 44 mlwydd oed, a hefyd Mr. David Tom Davies, mab William a Sarah Davies, New Houses, yn 19 mlwydd oed. Taflwyd cwmwl o alar a thristwch dros yr holl ardal a bylchwyd cartrefi annwyl yn drwm iawn.

Ar Ionawr 27ain, 1924, safydlwyd Banc Cynilo ynglŷn â'r Ysgol Sul a dewiswyd y swyddogion canlynol gan yr Ysgol Sul:

- Ysgrifennydd: Mr. David Charles Lloyd,
- Trysorydd: Mr. Gwilym Morris,
- Ymddiriedolwyr: Mr. T. Jenkins a Sidney Griffiths.

Hanes arall a sylwais oedd ymadawiad Mr. Joseph John Joseph, 'Tŷ'r Onên', i'r Unol Daleithau America ar Fai 9fed, 1927. Cynhaliwyd Cyfarfod Ymadawol yn Y Tabernacl, Llywyddwyd gan y Bugail a siaradwyd gan Thomas Jenkins, David Thomas, David Evans.
Archie Griffiths a William Reynolds. Cyflwynwyd rhoddion iddo ar ran ei gyfeillion yn yr Ysgol Sul. Beibl gan Mr. Sidney Jenkins, a 'suite case' gan Mr. David John Lodwick. Hwyliodd o Southampton ar Ddydd Mawrth Mai 10fed, gyda dymuniadau gorau ei holl gyfeillion. Dyma ni yn dod i garreg filltir arall yn hanes Y Tabernacl, ar y Sul, Rhagfyr 23ain, 1928, cafwyd golau trydan yn y Capel am y tro cyntaf.

Ar Fai 5ed, 1929, fe ddewiswyd blaenoriaid newydd sef, Mri. Sidney Griffiths, Thomas Williams, Hector Jenkins, Samuel Lloyd, W.G. Nicholas, John Evans, Sidney Jenkins. Gwrthododd Mr. Sidney Jenkins yr 'alwad'. Gorffennwyd cyfnod arall yn hanes Y Tabernacl yn y flwyddyn 1930. Fe dderbyniwyd llythyr oddi wrth y gweinidog Parch. Richard Lloyd yn rhoddi rhybudd ei fod wedi derbyn 'galwad' i Eglwys Peel Road, Bootle, Lerpwl a'i fod yn terfynnu ei gysylltiad bugeiliol ag Eglwys Y Tabernacl ddiwedd mis Mehefin. Cynhaliwyd cwrdd ymadawol i'r gweinidog a'i briod pryd y llywyddwyd gan Mr. Thomas Jenkins, Pleasant View. Cyflwynwyd rhodd i'r gweinidog o 'China Cabinet' ar ran yr Eglwys ac eraill, ac i Mrs. Lloyd rhoddwyd 'pearl necklace' gan ei dosbarth Ysgol Sul.

Cofnodwr y Capel oedd y gweinidog, ac felly yr oedd eisiau dewis Cofnodwr newydd. Ar Awst 3ydd, fe ddewiswyd Mr. Samuel Lloyd i gymryd at y gwaith. Penderfynwyd yn Awst 1930 i harddu y Capel, trwy osod ffenestri newydd a phlastro talcen a pheintio'r Capel. Yna ar Hydref 16ddeg, 1932, cynhaliwyd gwasanaeth agoriadol ar ôl yr adgywirio ar glanhau. Agorwyd y drws gan y brawd Mr. Phill.Phillips, Bryncaerau, ac ar ôl anerchiad gan y Llywydd y Parch.D.E. Jones, Penbre, cafwyd hanes cychwyniad

yr Achos gan yr hynafgwr Mr. Phill. Phillips. Yn yr hwyr cafwyd ddarlith gan y Parch. Robert Ellis, Tycroes ar y testun 'Ytgyrn Seion'. Ar y Sul pregethodd y Parch. Robert Ellis yn y bore a'r hwyr a'r Parch.Morgan Jones, Saron Ffwrnes, yn y prynhawn. Ar y nos Lun cafwyd oedfa neilltuol pryd y pregethwyd gan y Parchn. D. Rees Jones,a Idwal Jones.

Yn 1931 fe dderbyniwyd cais oddi wrth Bwyllgor Addysg, Caerfyrddin, am fenthyg y festri a'r dodrefn i gynnal dosbarth dyddiol. A bu dosbarth dyddiol yn Y Tabernacl am gyfnod maith, y rhent oedd 15s. yr wythnos. Daeth cyfnod arall i ben yn 1934 pan rhyddhawyd Mr. D.T.Williams o'i swydd fel ysgrifennydd yr Eglwys. Yr oedd wedi bod yn ysgrifennydd am 32 o flynyddoedd. Dewiswyd Mr. Hector Jenkins yn ei le.

Ar Fai 19ddeg, 1935, penderfynwyd i gynnal gwasanaeth coffawdwriaeth i'r diweddar Mr. Thomas Jenkins, Pleasant View,Siaradwyd yn y gwasanaeth gan y Parch. Christmas Lloyd. Yn Ionawr 1938 fe ddechreuwyd cronfa tuag at gael organ newydd. Fe gasglwyd at y gronfa am flynyddoedd.

Dyma gyfnod arall yn dechrau yn hanes Y Tabernacl ym mis Mehefin, 1939. Penderfynnwyd yn unfrydol i wneud trefniadau i 'alw' Bugail newydd. Bu yr Eglwys yn ddi-fugail am naw mlynedd. Ar Orffennaf 4ydd daeth Mr. William Edwards, Penbre, ar ran Dosbarth Cydweli a Henaduriaeth, De Caerfyrddin, i gymryd llais yr Eglwys ynglyh a galw Bugail a gwnaethpwyd bwyllgor bugeiliol. Ar Rhagfyr 31ain, 1939, penderfynwyd i orffen cael rhagor o bregethwyr ar brawf ac i osod enwau y pedwar a fu ar brawf o flaen yr Eglwys. Y pedwar oedd Mri. E.J. Evans, J.M.Mathias, O.J. Evans ag Edward Harries.

Derbyniodd Mr. Edward Harries yr 'alwad' i fod yn weinidog ar Y Tabernacl yn Mawrth, 1940, a chynhaliwyd y cyfarfodydd sefydlu ar Fedi 19eg, 1940. Llywydd y cyfarfodydd oedd y Parch. D.E. Jones, B.A., Penbre, a dyma drefn y cyfarfodydd. Prynhawn Dydd Iau am 2 o'r gloch, fe ddarllenwyd a cafwyd gweddi gan y Parch. J.V. Thomas, Glanfferi. Hanes yr Eglwys Mr. A.J. Griffiths, Tegfan, Hanes yr alwad Mr. T.G.Lloyd, Doncen, Ysgrifennydd. Ar ran Eglwys Talsarn, Mr. David Evans, Pantglas,Manordeilo, ar ran Henaduriaeth Gogledd Myrddin, y Parch. Evan Williams, M.A., B.D., Pantglas, Manordeilo, a Mr. David Evans, Pantglas, Manordeilo. Ar ran y myfyrwyr, Mr. Glanffrwd Harry,Penbre. Croesawyd ar ran Henaduriaeth De Caerfyrddin, gan Mr.Ivor Evans, Llanstephen, Llywydd yr Henaduriaeth a'r Parch.W.H. Williams, Llandyfaelog, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth. Siaradwyd ar ran Eglwysi'r cylch gan y Parch. Robert Jones,Sardis, Mr. James Morris, Noddfa, y Parch. T.J. Jones, B.A.,Llandyry. Siaradwyd ar ran Eglwysi'r dosbarth gan y Parch. E.J.Herbert, Cydweli a Mr. William Edwards, Penbre. Nos Iau am 6 o'r gloch fe gafwyd oedfa bregethu pryd y pregethwyd gan y Parch.J.C. Lloyd, Llanstephen a'r Parch. M.P.

Morgan,Blaenannerch. Fe ordeiniwyd Mr. Harries yn sasiwn Caerfyrddin yn Nachwedd 1940.

Dyma ni yn symud yn awr i'r flwyddyn 1942 pryd y cafwyd cais gan Mr. Hector Jenkins am ei rhyddhau o'i swydd fel Ysgrifennydd, ac fe ddewiswyd Mr. T.G. Lloyd i gymryd at y gwaith. Daeth canlyniad y llafur o gasglu tuag at yr 'Organ Fund' i ben yn 1949, pan gafwyd organ bibau newydd yn Y Tabernacl. Agorwyd yr organ gan Mr. D.J. Evans, Llanelli, Fe rhoddodd recital rhagorol ar yr organ.

Yn 1951 dewisiwyd blaenoriaid newydd sef, Mri. W.E.Charles, Daniel Evans, Thomas John Jenkins, David Charles Lloyd, a J.J. Thomas. Yn yr un flwyddyn ymddeolodd Mr. Sidney Griffith fel Trysorydd ac fe benodwyd Mr. J.J. Thomas yn ei 1e. Rhaid symud yn awr i'r flwyddyn 1952 pryd y penderfynwyd i beintio a harddu y Capel. Yn y cyfarfodydd agoriadol y Capel Hydref 1952, rhoddwyd y gorchwy1 o agor y drws i Mr. David Thomas. Pregethwyd yn yr wyl gan y Parch. D.R.Beynon a'r Parch. L. Jones. Yn y flwyddyn 1955 fe dderbyniwyd cais gan y B.B.C. i wneud recordad o Ganiadaeth y Cysegr ym mis Gorffennaf, a rhoddwyd y darlledriad ym mis Awst. Bu rhaid dewis rhagor o flaenoriaid yn y flwyddyn 1961.Dewiswyd pump o frodyr yn Gorffennaf, sef, y Mri. Lennard Evans,Gwilym Griffiths, Rees John, Haydn Thomas a Sidney Lewis Williams. Yna ar Rhagfyr 1af, 1963, ymddeolodd Mr. T.G. Lloyd,fel Ysgrifennydd y Capel ac fe benodwyd Mr. H.W. Jenkins, fel ysgrifennydd a Mr. Samuel Lloyd yn ysgrifennydd y Cyhoeddiadau.Fe fu Mr. Thomas Gomer Lloyd yn Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau oddiar 1929 ac yn Ysgrifennydd Cyffredinol ers 1942.

Amser y Nadolig 1966 bu farw Mr. Haydn Thomas A.T.C.L.ar ôl gwasanaeth cyson fel organydd am tua 50 mlynedd. Dewiswyd Mrs. B.M. Harries yn organyddes y Capel a Mrs. Heather Killa fel is-organyddes.

Cafwyd gwresogydd newydd i'r Capel yn yr Haf 1967 ac ym mís Mawrth 1968 dewiswyd blaenoriaid newydd sef, Mri. Ronald Davies, Wynn Jenkins, James Williams a Cyril Phillips. Dim ond Mr. Cyril Phillips a gymerodd yr alwad. Bu rhaid felly dewis rhagor o flaenoriaid ym Mawrth 1969, sef, Mri. Hywel Daniels,D.J. Lodwick, a Joseph Lloyd.

Yn Ebrill 5ed, 1970, dewiswyd Mr. Hywel Daniels yn Drysorydd yr Eglwys ar 6l marwolaeth Mr. J.J. Thomas a fu yn Drysorydd am 19 o flynyddoedd.

Yn Rhagfyr 1972 rhoddwyd tysteb i Mr. T.J. Jenkins am ei waith fel arweinydd y gân am 37 o flynyddoedd, a fe ddewisiwyd Miss Olive Eynon yn ei le.

Yn sydyn ac yn ddisymwth ym Mawrth 1975 bu farw y gweinidog annwyl y Parch. Edward Harries, B.A., B.D. Bu Mr.Harries yn weinidog ffyddlon am 35 o flynyddoedd a mawr oedd y colled. Yr oedd Mr. Harries wedi edrych ymlaen am Ganmlwyddiant y Capel yn 1976 ac wedi dechrau crynhoi hanes yr Eglwys, ond ni chafodd ei ddymuniad. Cafodd angladd barchus oherwydd mawr oedd ei barch yn yr ardal.

Y 'nawr yr oedd rhaid edrych am weinidog arall ac oherwydd prinder gweinidogion bu rhaid i ni ymuno â'r Tabernacl, Pontiets, a Soar, Pontyberem. Fe sefydlwyd pwyllgor bugeiliol i'r tair Eglwys a phenderfynwyd i rhoi galwad i Mr.W.J. Ambrose a oedd yn terfynu ei gwrs yn y coleg. Bu y cyfarfodydd sefydlu yn Y Tabernacl, Trimsaran ar Ddydd Mercher Hydref 26ain, 1977. Y Llywydd oedd y Parch. Samuel Davies,Caerfyrddin. Cymerwyd rhan gan y Parchn. Gwyn Davies Jones,Richard Hughes, Wyndham Williams, B.A. B.D., Gareth Davies, Dan Davies, B.A. Hefyd gan y Mri. Dyfrig Jones, Elwyn Evans, W.o.Williams, Samuel Lloyd, Kenneth Treharne a Goronwy Jones.Pregethwyd yn yr hwyr gan y Parch. T. Arwyn Thomas, Hwlffordd.Cafodd Mr. Ambrose ei ordeinio yn Sasiwn Leytonstone, Llundain,yn yr un flwyddyn.Yn y flwyddyn ganlynol, dewisiwyd blaenoriaid newydd sef, Mri. Alun Killa, David Daniels, Meirion Davies a John Williams. Ni dderbyniodd Mr. John Williams yr alwad.

Hanes Capel Tabernacle Trimsaran 1872-1979




Carmarthenshire, with an influx of people from Cardiganshire, was a significant centre for the development of Methodism in the 11th century. In this county, giants of Methodism are remembered, such as William Williams, Pantycelyn, Peter Williams, Thomas and David Charles of Carmarthen, John Evans of Llwynffortun, and several other men who agreed to dedicate themselves to serving God. In the words of the prophet, "You are not the least among the counties of Wales, for from you princes came to shepherd the people of the Lord."

Let's go back to 1872 to the beginning of the history of Methodism in Trimsaran. In this year, the Monthly Meeting at Horeb Chapel, Mynydd-y-Garreg, decided that the time had come to establish a Methodist Cause in the community. To consider the matter, Rev. David Lewis of Llanstephan and D. Geler Owen of Kidwelly visited Trimsaran.

Both ministers saw the suitability and potential for growing a Methodist Cause in the community due to the migration of people from Cardiganshire to the area. Strong support was received from the community, and to start the work, preaching was conducted in Trilwm, the home of John and Sarah Phillips, and also at Plâs, the home of David and Catherine Williams. The ministry began in the 'shed' at the back of the 'Post Office', and the location was claimed for a period.

Shortly thereafter, in 1873, land was acquired from the Trimsaran works company to build a Methodist Chapel. Despite financial challenges, the Monthly Meeting succeeded in finding the funds to pay the lease for 99 years. During this period, dealing with a shortage of money was a recurring theme consistent with the historical context.

A Grand Eisteddfod was recorded at Kidwelly Castle in 1874 where over £30 was donated to the building fund of the new Chapel in Trimsaran. In such an environment, construction would be challenging, and the eisteddfod was one of the significant events in the community.

A notice was published in the 'Guardian' on April 30th, 1874, inviting tenders for the construction of the chapel. The notice was for 6 weeks, and offers were to be sent to T. Morgans, Horeb, Llanelli. The process then began to build Tabernacle Chapel, which has stood as a symbol of the influence and contribution of Methodism in the history of Trimsaran until today.

It appears that Trimsaran has grown significantly since the opening of the Coal and Iron Works. Due to economic growth, the Calvinistic Methodist Cause began eighteen months before the opening of the Coal Works. As a result, tea was provided for the Sabbath school children of the Cause on the lawn in front of Mr. Combe's house, the manager of the coal works. Miss Combe and some ladies from Kidwelly have collaborated to administer this activity.

After about a hundred children enjoyed tea, Mr. and Miss Combe were thanked by Rev. D.G. Owen of Kidwelly on behalf of the children. Mr. Combe expressed his pleasure at seeing the children enjoy themselves, and he hoped that this would happen again in the future. The children had a good time, and books were distributed to them by Mr. D. Nicholas of Kidwelly.

It is unclear when the foundation stone was laid, but it is likely that on July 28th, 1874, it was laid by Mrs. P. Daniels of Llandyry House, the wife of Mr. Daniels, the manager of the coal works. Mr. T. Morgan of Horeb chaired the event, and the service began with Rev. D.G. Owen of Kidwelly singing the familiar hymn 'Gosod Babell yng ngwlad Gosen'. Then, Rev. T. James of Llanelli read and offered a consecration prayer. An English address was given by Rev. Joseph Evans of Carmarthen before Mrs. P. Daniels laid the foundation stone.

Mr. Daniels presented a brief speech on behalf of his wife, expressing his pride in seeing two chapels and a school being built near the works, hoping that the village would develop prosperously and inspiringly as a result. He thanked his wife for the faith she had given. Also, speeches were heard from Rev. O. Edwards of Llanelli, J. Davies of Llanelli, J. Griffiths of Ferryside, D.G. Owen of Kidwelly, W.D. Williams of Penclawdd, and Mr. Stephens of Brynamman.

After the meeting, they enjoyed a tasty meal at Llandyry Castle provided by Mrs. Daniels. Mr. Richard Morgan of Kidwelly was the first contractor, but an accident occurred while cutting the scaffold, injuring two workers. Mr. Morgans, the contractor, suffered a leg injury, and a young man suffered an arm injury. This happened on April 6th, 1875, leading to a temporary suspension of the work. Rev. John Griffiths of Glanfferi and the architect, Mr. G. Morgan of Carmarthen, took charge.

To raise funds for building the Chapel, several concerts and Eisteddfods were held in the area. On October 16th, 1874, a concert was held in Morfa, Kidwelly, for the benefit of

Tabernacle's building fund, chaired by Mr. J. Dudley Thomas. 'Eos Morlais', Miss M.A. Lewis, Harriet Jones, Mrs. D.C. Davies of Carmarthen, and a Glee Party from Kidwelly, led by Mr. J. Anthony, participated. On October 20th, another concert was held at Tabernacle, the Baptist Chapel, in Porth Tywyn, for the benefit of Tabernacle's building fund. The Chairman was Mr. J.K. Hand, and 'Eos Morlais', Miss Morgans, Mrs. Williams, Mr. D. Thomas, Miss Randell, and a 'Glee Party' from New Chapel participated, under the direction of Mr. T. Morgans of Horeb.

On March 7th, 1876, an Eisteddfod was held in Trimsaran, with Mr. L. Williams, the manager of the coal works, as Chairman, and Mr. D.T. Morris of Ferryside as conductor. The literary judges were Mr. D. Richards and Mr. T. Williams, and the music judge was Mr. W.T. Ress was. A concert was held after the Eisteddfod, and another concert, contributing £15 to the 'building fund'. On March 26th and 27th, 1876, it was announced in the 'Guardian' that Tabernacle, built at a cost of £1,100, was officially opened on Tuesday and Monday, March 26th and 27th, 1876. The opening service included prayer and preaching by Rev. D.G. Owen of Kidwelly, John Griffiths of Glanfferi, Rev. T.James of Llanelli, Rev. D.C. Lewis of Llandyfaelog, Rev. J.Lewis of Carmarthen, and Rev. E.Edmunds of Swansea.

In addition, on August 12th, 1876, a 'Tea Party' was held for the Sunday School children on the field near the Chapel. The concert was led by Mr. Phill. Phillips of Trilwm, with performances by the choir and the party under the leadership of Mr. Tom Phillips. Following the tea, songs were performed by Mr. Tom Phillips, who sang triads and anthems. After the singing, the children continued to enjoy themselves, and sweets were distributed. The entire event was under the supervision of Rev. J. Griffiths of Glanfferi, Mr. L. Williams, the works manager, and Mr. Phill. Phillips.

In the year 1877, the Chapel's annual meetings were held on Sunday and Monday, December 16th and 17th, with preaching by Rev. W.D. Williams of Penclawdd, Mr. D. Jones of Gorseinon, J. Lewis of Carmarthen, and E. Jones of Llanpumsaint, a probationary minister. Money was collected at each service for the 'building fund'. Rev. Edward Jones was the first minister of the Church, living on Clun Farm. Although he lived there for a short period, he was successful. Before long, the cause evolved and declined, and then Rev. D. Geler Owen of Kidwelly took on the pastoral work. Some of the elders under his care were Messrs. David Williams, John Phillips, Charles Lloyd, John Jenkins, John Morris, Thomas Beynon, Thomas Jenkins, David Lloyd, David Jones Williams, and John Morgan.

The Church prospered under the pastoral care of Rev. Geler Owen. In 1907, a new organ was acquired for the Chapel at a cost of £50. Then, in 1908, beautiful and convenient vestries worth £350 were built by Mr. David Williams and Mr. David Tom Williams. The vestries were opened on Easter Sunday, April 19th, 1908, with preaching by Rev. W.W. Lewis of Carmarthen and Mr. Jones of Trefeca College.

By this time, most of the debt had been paid off, but by now the cost and difficulty had been crowned with success. Here is the Church's report for 1908:

• Number of full members: 101

• Total number of attendees, including members and children: 200

• Total Sunday School: 120

• Collection for the Ministry: £40-3s-11d

• For Foreign Mission: 10s

• For Home Mission: 10s

• For every cause: £496-8s-2d

• The history from 1908 to 1919 is unclear because there are no records for this period.

Rev. Geler Owen had to leave the ministry due to illness, and then, in October 1919, Rev. Richard Lloyd took on the pastoral work. • The Inaugural Meeting of the minister was held on the afternoon and evening of Tuesday, November 25th, 1919. It was officiated by Rev. Thomas Jones of Rhostyllen, D. Geler Owen, E. J. Herbert, D. E. Jones, B.A., J. Owen Jones, H. Pryse Jones, Mr. Jones of Rheoboth, Mr. Williams of Carway, and Mr. Jones of Kidwelly, among others. The Church's temporary caretaker at the time was Rev. Richard Lloyd himself, and the names of the elders were: • Mr. David Williams, New Houses. • Mr. David Tom Williams, Gwynfryn. • Mr. Thomas Jenkins, Pleasant View. • Mr. Thomas Beynon, Clun Farm. • Mr. John Phillips, Man yr Afon. • Mr. Thomas Morris, London House. Mr. Lloyd has recorded the baptized children, those received into membership, marriages, and those buried in the cemetery, but it is not possible for me to mention all of these, so the records had to be condensed, noting only the most important facts.

On December 25th, 1919, it is noted that a choir of singers led by Mr. Thomas Jenkins gave a rendition of the cantata 'Hosanna'r plant', and a repeat performance in January 1920. Thus, this practice continued for years. Here is a list of some of the cantatas performed: 'Bugeiliaid Bethlehem', 'Rejoice in the Lord', 'Twelfth Mass', 'The City of God'. In 1924, a change is seen in the practice of singing a cantata every Christmas, with the addition of a concert by Mr. T.J. Jenkins' Glee Party. It was chaired by Dr. Harvey and Rev. G. Lewis, B.A. In 1929, another conductor participated in the Christmas concert, namely Mr. Haydn Thomas A.T.C.L., when the cantata 'Ymgom yr Adar' was performed, and the accompanist was Mr. T.J. Jenkins. On September 26th, 1920, new elders were chosen. Their names were Mr. Archie Griffiths, David Jenkins, William Lodwick, Benjamin Lloyd, Thomas Gomer Lloyd, and David Thomas. One of them declined to be a leader, namely Mr. Benjamin Lloyd. Here is the list of Church officials on January 1st, 1921. Elders: • Mr. Thomas Beynon, Chairs • Mr. John Phillips, Secretary of Chairs

• Mr. David Tom Williams, Church Secretary

• Mr. Thomas Jenkins, Choir Leader

• Mr. Thomas Morris, Treasurer

• Mr. David Thomas, Worship Service Organizer • Mr. William Lodwick, Secretary of Contributions Fund

• Mr. David Jenkins, Caretaker of the Sacraments

• Mr. Thomas Gomer Lloyd, Caretaker of the Ministries' Collections

• Mr. Archie Griffiths, Cemetery Supervisor Other Church officials were:

• Mr. John Lloyd, Chairs

• Mr. Haydn Thomas, Organist Sunday School Officials:

• Supervisor: Mr. Thomas Williams

• Secretary: Mr. Sidney Lewis Williams

• Treasurer: Mr. Sidney Griffiths One of the next recorded events was the incident on April 26th, 1923. On this date, a serious accident occurred at the Trimsaran Colliery. When the men were returning to the surface from their work, the shackles broke, and the 'spake' (the lift cage) plummeted to the bottom, causing the men with it, and in a few seconds, ten lives were lost, and half a hundred were injured.

From Tabernacle Church, Mr. William Jenkins, 'Derlwyn', aged 44, was lost, and Mr. David Tom Davies, son of William and Sarah Davies, New Houses, aged 19.

A cloud of mourning and sadness hung over the entire area, and beloved homes were filled with deep sorrow.

On January 27th, 1924, a Savings Bank was established regarding the Sunday School, and the following officers were chosen by the Sunday School:

• Secretary: Mr. David Charles Lloyd

• Treasurer: Mr. Gwilym Morris

• Trustees: Mr. T. Jenkins and Sidney Griffiths. Another noteworthy event was the departure of Mr. Joseph John Joseph, 'Tý'r Onên', to the United States of America on May 9th, 1927. A Farewell Meeting was held at The Tabernacle, presided over by the Pastor and addressed by Thomas Jenkins, David Thomas, David Evans, Archie Griffiths, and William Reynolds. Gifts were presented to him on behalf of his friends in the Sunday School.

Mr. Sidney Jenkins gave him a Bible, and Mr. David John Lodwick presented a suitcase. He sailed from Southampton on Tuesday, May 10th, with the best wishes of all his friends.

Here we move forward in the history of The Tabernacle. On Sunday, December 23rd, 1928, electric lighting was installed in the Chapel for the first time.

On May 5th, 1929, new leaders were chosen, namely Mr. Sidney Griffiths, Thomas Williams, Hector Jenkins, Samuel Lloyd, W.G. Nicholas, John Evans, Sidney Jenkins. Mr. Sidney Jenkins declined the 'calling.' Another chapter in the history of The Tabernacle concluded in the year 1930.

The minister, Rev. Richard Lloyd, received a letter indicating that he had accepted a 'calling' to Peel Road Church, Bootle, Liverpool, and would be concluding his pastoral connection with The Tabernacle at the end of June. A farewell meeting for the minister and his wife was held, presided over by Mr. Thomas Jenkins, Pleasant View.

A gift was presented to the minister from the Church, a 'China Cabinet,' and Mrs. Lloyd received a 'pearl necklace' from her Sunday School class. The Chapel secretary was the recorder, and therefore, a new Recorder needed to be chosen. On August 3rd, Mr. Samuel Lloyd was chosen to take on the role. In August 1930, it was decided to beautify the Chapel by installing new windows, plastering the ceiling, and painting the Chapel. Then, on October 16th, 1932, an inaugural service was held after the renovations, and the Chapel was visited to commemorate its history.

The door was opened by Mr. Phill. Phillips of Bryncaerau, and after an address by the President, Rev. D.E. Jones of Pembrey, the history of the establishment of the Cause was recounted by the elder Mr. Phill. Phillips. In the evening, a lecture was delivered by Rev. Robert Ellis of Dycroes on the topic 'The Seion Society.'

On Sunday, Rev. Robert Ellis preached in the morning and evening, and Rev. Morgan Jones of Saron Ffwrnes in the afternoon. On Monday night, a special service was held, with sermons by Rev. D. Rees Jones and Idwal Jones.

In 1931, an application was made to the Carmarthenshire Education Committee to borrow the vestries and furnishings to conduct a daily school class. A daily class was held in The Tabernacle for a long period, and the rent was 15s. per week. Another era came to an end in 1934 when Mr. D.T. Williams resigned from his position as the secretary of the Church. He had been the secretary for 32 years.

Mr. Hector Jenkins was chosen to take his place. On May 19th, 1935, it was decided to hold a memorial service for the late Mr. Thomas Jenkins of Pleasant View, and the service was addressed by Rev. Christmas Lloyd. In January 1938, a fund was initiated to acquire a new organ, and contributions were collected for years.

This marked another beginning in the history of The Tabernacle in June 1939. It was unanimously decided to make, arrangements to 'call' a new Pastor. The Church had been pastor less for nine years.

On July 4th, Mr. William Edwards from Pembrey, on behalf of the Cydweli and Henaduriaeth Sunday School, South Carmarthenshire, came to represent the voice of the Church regarding the pastoral call.

A pastoral committee was formed, and on December 31st, 1939, it was decided to finalize getting more preachers on trial and to put the names of the four who were on trial before the Church. The four were Mr. E.J. Evans, J.M. Mathias, O.J. Evans, and Edward Harries. Mr. Edward Harries accepted the 'calling' to be the minister at The Tabernacle in March 1940, and the establishment meetings were held on September 19th, 1940.

The meetings were presided over by Rev. D.E. Jones, B.A., of Pembrey, and the order of the meetings was as follows:

1. Thursday afternoon at 2 o'clock: a prayer was read and offered by Rev. J.V. Thomas, Glanfferi. The Church's history was read by Mr. A.J. Griffiths, Tegfan, the calling's history by Mr. T.G. Lloyd, Doncen, and the Secretary.
2. On behalf of Talsarn Church: Mr. David Evans, Pantglas, Manordeilo.
3. On behalf of the North Carmarthen Association: Rev. Evan Williams, M.A., B.D., Pantglas, Manordeilo, and Mr. David Evans, Pantglas, Manordeilo.
4. On behalf of the students: Mr. Glanffrwd Harry, Pembrey.
5. Welcome on behalf of the South Carmarthen Association by Mr. Ivor Evans, Llanstephan, the Association's President, and Rev. W.H. Williams, Llandyfaelog, the Association's Secretary.
6. Addresses on behalf of the churches in the circuit by Rev. Robert Jones, Sardis, Mr. James Morris, Noddfa, and Rev. T.J. Jones, B.A., Llandyry.
7. Thursday night at 6 o'clock, they had a preaching service, where Rev. J.C. Lloyd, Llanstephan, and Rev. M.P. Morgan, Blaenannerch, preached. Mr. Harries was ordained in a session in Carmarthen in November 1940. We move forward to the year 1942 when a request for his release from the position of Secretary was made by Mr. Hector Jenkins, and Mr. T.G. Lloyd was chosen to take on the role.
8. The result of the labour of collecting for the 'Organ Fund' came to an end in 1949 when a new pipe organ was acquired at The Tabernacle. The organ was opened by Mr. D.J. Evans, Llanelli, who gave an excellent recital on the organ.
9. In 1951, new leaders were chosen, namely Messrs. W.E. Charles, Daniel Evans, Thomas John Jenkins, David Charles Lloyd, and J.J. Thomas. In the same year, Mr. Sidney Griffith retired as Treasurer, and Mr. J.J. Thomas was appointed in his place.
10. We must move forward to the year 1952 when it was decided to paint and beautify the Chapel. In the opening meetings of the Chapel in October 1952, the key to the door was presented to Mr. David Thomas.
11. The festival was preached by Rev. D.R. Beynon and Rev. L. Jones. In 1955, a request was received from the B.B.C. to record the Sanctuary's music in July, and the broadcast took place in August.
12. More leaders had to be chosen in 1961. In July, five brothers were chosen, namely Messrs. Lennard Evans, Gwilym Griffiths, Rees John, Haydn Thomas, and Sidney Lewis Williams.
13. Then, on December 1st, 1963, Mr. T.G. Lloyd retired as the Chapel's Secretary, and Mr. H.W. Jenkins was appointed as the secretary, with Mr. Samuel Lloyd as the Publications Secretary. Mr. Thomas Gomer Lloyd served as the Publications Secretary from 1929 and as the General Secretary from 1942.
14. During the Christmas season of 1966, Mr. Haydn Thomas A.T.C.L. passed away after serving as the organist consistently for about 50 years. Mrs. B.M. Harries was chosen

as the Chapel's organist, and Mrs. Heather Killa as the assistant organist. A new heater was installed in the Chapel in the summer of 1967, and in March 1968, new leaders were chosen, namely Messrs. Ronald Davies, Wynn Jenkins, James Williams, and Cyril Phillips. Only Mr. Cyril Phillips accepted the calling.

15. Therefore, more leaders had to be chosen in March 1969, namely Messrs. Hywel Daniels, D.J. Lodwick, and Joseph Lloyd.

16. On April 5th, 1970, Mr. Hywel Daniels was chosen as the Church Treasurer following the death of Mr. J.J. Thomas, who had served as Treasurer for 19 years. In December 1972, a testimonial was given to Mr. T.J. Jenkins for his work as the hymn leader for 37 years, and Miss Olive Eynon was chosen in his place.

17. Suddenly and unexpectedly in March 1975, the beloved minister, Rev. Edward Harries, B.A., B.D., passed away. Mr. Harries had been a faithful minister for 35 years, and his loss was profound. Mr. Harries had been looking forward to the Chapel's Centenary in 1976 and had started compiling the Church's history, but it was not meant to be. He had a dignified funeral due to the respect he held in the area. Now, we had to look for another minister, and due to a shortage of ministers, we had to merge with Tabernacl, Pontiets, and Soar, Pontyberem. A pastoral committee was established for the three Churches, and a call was extended to Mr. W.J. Ambrose, who was completing his course in college.

18. The establishment meetings were held at Tabernacl, Trimsaran, on Wednesday, October 26th, 1977. The President was Rev. Samuel Davies, Caerfyrddin. Participants included Revs. Gwyn Davies Jones, Richard Hughes, Wyndham Williams, B.A. B.D., Gareth Davies, Dan Davies, B.A., as well as Messrs. Dyfrig Jones, Elwyn Evans, W.O.Williams, Samuel Lloyd, Kenneth Treharne, and Goronwy Jones. In the evening, Rev. T. Arwyn Thomas, Hwlffordd, preached. Mr. Ambrose was ordained in a session in Leytonstone, London, in the same year. In the following year, new leaders were chosen, namely Messrs. Alun Killa, David Daniels, Meirion Davies, and John Williams. However, Mr. John Williams did not accept the calling.

## Trefeca College.

Trefeca College, located in the village of Trefeca in Powys, Wales, has historical significance in the context of the Methodist movement. It was the home of Howell Harris (1714-1773), a key figure in the early Methodist movement in Wales. Howell Harris is known for forming the first Methodist society at Trefeca.

The original farmhouse at Trefeca, where Howell Harris resided, underwent significant expansion and embellishment between 1752 and 1759. The architectural style adopted during this period reflects a modern interpretation of the Gothic style.

From 1842 to 1906, Trefeca College served as a training institution for the Calvinistic Methodist denomination. Following this period, it transitioned into a Presbyterian lay training establishment. The college has played a crucial role in the education and training of individuals within the Methodist and Presbyterian traditions.

Although the farmhouse that predates 1752 no longer retains its external features, Trefeca College showcases architectural elements such as towers and turrets, which were likely added during the expansion in the mid-eighteenth century. Two rooms within the college feature plaster ceilings dating back to around 1730, complemented by contemporary panelling, a fireplace, and a stair, providing a glimpse into the historical and architectural richness of the site. Significant restoration work was undertaken during the mid-nineteenth century and again from 1910 to 1920, contributing to the preservation of Trefeca College's heritage.